Working for **Equality** in Wales

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| | |
|---|---|
| **Teitl a diben y polisi (amlinelliad cryno):** | **Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth** |
| **Enw'r swyddog** | **Huw Jones** |
| **Adran:** | **Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Dyddiad:** | **18/07/14** |
| **Llofnod:** | *Huw Jones* |

ISBN: 978-1-4734-4356-3

## 1. Rhowch ddisgrifiad cryno o'r polisi/penderfyniad

**Er enghraifft, beth yw amcan cyffredinol y polisi/penderfyniad, beth yw'r nodau penodedig (gan gynnwys pwy y bwriedir i hyn fod o fudd iddynt), disgrifiad bras o sut caiff hyn ei gyflawni, sut caiff llwyddiant ei fesur, a beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn nodi'r diffiniad o lesiant. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad am y canlyniadau llesiant sydd i'w cyflawni.

Nod y polisi hwn yw deddfu fel y bydd hawliau a chyfrifoldebau pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn gyfraith gwlad. Bydd y sector gofal cymdeithasol yn defnyddio'r datganiad llesiant er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau gyda phobl. Bydd yn ffactor pwysig o ran llywio'r newid tuag at ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar bobl, y canlyniadau y maent am eu cyflawni ac wrth roi mwy o lais a rheolaeth iddynt.

Cyhoeddwyd datganiad llesiant y Dirprwy Weinidog ar 26 Mehefin 2014. Mae'r datganiad llesiant yn rhan o'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Mae'r fframwaith yn cynnwys y datganiad llesiant ar ddangosyddion canlyniadau cenedlaethol a gaiff eu defnyddio i roi tystiolaeth ynghylch a yw llesiant yn cael ei gyflawni.

Mae hon yn ffordd dryloyw o nodi pa ganlyniadau y dylai pobl eu disgwyl, a pha wasanaethau sy'n cyfrannu at gyflawni llesiant. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth a fydd yn ein galluogi i gael gwybod yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, er mwyn llywio ein polisïau'n genedlaethol, a'n harfer yn lleol.

Caiff ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gofnodi'r canlyniadau llesiant sy'n bwysig i bobl sydd angen cymorth a gofal a gofalwyr sydd angen cymorth.

2. **Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (cyfeiriwch at Atodiad A y canllawiau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i'r polisi Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?**

Cafodd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol a'r canlyniadau a'r disgwyliadau ynddo eu cyd-gynhyrchu â'r bobl eu hunain. Gofynnwyd i bobl nodi'r hyn a oedd yn bwysig iddynt. Gwnaethom hyn mewn ffordd uniongyrchol ac ymgysylltiol. Golygai hyn fod ein hymrwymiadau i gydraddoldeb wedi'u hymgorffori yn ein gwaith o'r cychwyn cyntaf, ac mae wedi gwella ein dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n bodoli i grwpiau cydraddoldeb gwahanol.

Aethom ati i gysylltu â grwpiau penodol y gwyddom y byddai ganddynt lai o lais yn draddodiadol, sef plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr. Ar y cyd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru aethom ati i gael lleisiau uniongyrchol pobl fel rhan o'i ymgyrch 'I matter, we matter' a gyflwynodd leisiau grŵp amrywiol o bobl – dros 4,000 o gysylltiadau. Drwy hyn targedwyd pobl ag ystod eang o nodweddion gwarchodedig.

Gofynnwyd i Voices from Care hwyluso gweithdai gyda phobl ifanc sy'n derbyn neu sydd wedi derbyn gofal i nodi'r hyn sy'n bwysig iddynt. Bu'r gwaith hwnnw'n hollbwysig o ran pennu'r fethodoleg, a nodi canlyniadau sy'n gymwys i bawb. Aethom ati i weithio gyda Chynghrair Gofalwyr Cymru a Plant yng Nghymru a hwylusodd weithdai gyda gofalwyr hŷn ac iau er mwyn nodi canlyniadau i ofalwyr a sicrhau y caiff yr hyn sy'n bwysig i ofalwyr ei gofnodi yn y datganiad llesiant.

Er mwyn sicrhau bod anghenion a chanlyniadau'r grwpiau penodol hyn o bobl yn cael eu cofnodi, aethpwyd ati hefyd i gysoni fframweithiau Llywodraeth Cymru, y caiff pob un ei ddatblygu drwy ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau er mwyn nodi'r canlyniadau allweddol a phethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol i bobl anabl, y Fframwaith Canlyniadau Blynyddoedd Cynnar a Fframwaith Gweithredu'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Cyfarfuom ag ystod eang o bobl gan sicrhau inni ddefnyddio'r dystiolaeth o'u cysylltiadau uniongyrchol eu hunain er mwyn llywio'r fframwaith. Gwnaeth hyn sicrhau bod y datganiad llesiant yn cynnwys yr holl ganlyniadau a disgwyliadau pwysig o ran llesiant i bobl wahanol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Bil rhwng 12.03.12 – 01.06.12. Craffwyd ar y Bil drafft gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd. Arweiniodd hyn at welliant a oedd yn ychwanegu 'addasrwydd llety' i'r diffiniad o lesiant fel y'i diffiniwyd yn y Bil a basiwyd gan y Cynulliad ar 18 Mawrth 2014.

Cyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r Asesiad

hwn o'r Effaith Amgylcheddol yn diweddaru'r gwaith ym meysydd nodweddion gwarchodedig, hawliau dynol, y Gymraeg a datblygu cynaliadwy.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus arall ar y ffordd y dylid datblygu'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol, sy'n cynnwys y datganiad llesiant rhwng 12.11.12 - 04.02.13, a chafodd ymatebion gan ystod eang o sefydliadau megis Cymdeithas Alzheimer, Anabledd Cymru, Diverse Cymru a Relate Cymru.

Arweiniodd hyn at sefydlu'r Grŵp Llywio ac Ymgysylltu sy'n cynnwys aelodau o sefydliadau sy'n cynrychioli'r sector statudol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat. Mae'n cynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchodedig eu hunain ac sy'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion gwarchodedig ac mae hyn yn sicrhau ein bod yn cynnwys y lleisiau hynny eto.

Gwnaeth y Grŵp Llywio ac Ymgysylltu Strategol lywio'r fframwaith canlyniadau a'r datganiad llesiant cryn dipyn. Mae'r grŵp hwn yn rhan o strwythur ymgysylltu ehangach i lywio polisïau gwasanaethau cymdeithasol. Rhoddodd aelodau gyngor proffesiynol ar ddatblygu canlyniadau llesiant er mwyn sicrhau bod diffiniadau yn cynrychioli llesiant yr holl bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Cafodd y datganiad llesiant ei lunio i ddechrau gyda phlant sy'n derbyn gofal. Wrth ddatblygu'r gwaith hwn, rydym wedi gweithredu ar sail hawliau, yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r datganiad llesiant wedi cael ei ddatblygu ymhellach gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n rhan o Banel Dinasyddion Gwasanaethau Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru. Mae Panel Cenedlaethol y Dinasyddion yn gweithio fel rhan o'r trefniadau arweinyddiaeth cydweitherdol, gan sicrhau llais defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn y broses o drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Er mwyn mesur a yw polisïau cenedlaethol ac arferion lleol yn helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau llesiant a ddisgrifir yn y datganiad llesiant ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, datblygwyd cyfres o ddangosyddion canlyniadau cenedlaethol. Rhoddodd y Grŵp Llywio ac Ymgysylltu Strategol gyngor ar y gyfres hon ac aethom ati i weithio'n agos gyda'r tîm Sicrhau Canlyniadau Gwell er mwyn sicrhau bod y dangosyddion canlyniadau yn fesurau addas i ddeall a oedd llesiant pobl yn cael ei sicrhau.

Yn ystod y gwaith hwn i gysoni fframweithiau Llywodraeth Cymru, mae'r dangosyddion canlyniadau ym mhob fframwaith wedi cael eu hadolygu er mwyn nodi'r cysylltiadau a'r dangosyddion a rennir, gyda'r nod o ddileu dyblygu a sicrhau bod pob gwasanaeth yn atebol am sicrhau llesiant pobl.

Mae'r datganiad llesiant yn cynnwys nifer o fesurau goddrychol o lesiant, megis boddhad gyda bywyd. Yn sgil y gwaith hwn, a thrafodaethau â defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a phob rhan o'r llywodraeth, caiff cwestiynau perthnasol eu cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Er bod maint y sampl ar gyfer grwpiau gwarchodedig yn fach, gallai'r gwaith hwn esgor o bosibl ar feysydd

ymchwilio (e.e. cyfweliad dilynol manwl) ynghylch a oes gan grwpiau gwarchodedig penodol sydd angen gofal a chymorth neu sy'n ofalwyr sydd angen cymorth yr un lefel o lesiant â'r boblogaeth a defnyddwyr gwasanaethau eraill. Rydym hefyd wedi gweithio'n uniongyrchol â'r COPA i ddatblygu'r cwestiynau hyn.

**3. Mae'n rhaid i'ch penderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Pa dystiolaeth ydych chi wedi'i defnyddio? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth hon e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. Ydych chi o'r farn fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes unrhyw fylchau yn y dystiolaeth?**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu'r gwahaniaeth y mae Llywodraeth Cymru am ei wneud i fywydau pobl yng Nghymru. Wrth wraidd hyn mae ffocws ar bobl ac ymrwymiad i helpu i ddatblygu cymdeithas decach lle y gall pob un wneud y mwyaf o'i alluoedd a chyfrannu at y gymuned y mae'n byw ynddi.

Mae ‘Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu' yn datblygu hyn ymhellach, ac yn nodi bod yn rhaid i wasanaethau Cymdeithasol a gofal cymdeithasol weithredu mewn ffyrdd sy'n cryfhau ein llais; sy'n rhoi cyfle i ni gael y rheolaeth fwyaf bosibl dros ein bywydau; sy'n adeiladu ar ein cryfderau; sy'n atgyfnerthu awydd ein teulu i'n cynnal a'n cryfhau a'n galluogi i wneud cyfraniad llawn i'r gymuned a chael ei chefnogaeth.

Cafodd y gwerthoedd hyn eu mynegi yn Neddf Plant 1989 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig dros Bobl Hŷn, ac mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau a'r Gymraeg, a buont yn sail i ddatblygu'r diffiniad o lesiant yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r canlyniadau a'r disgwyliadau o ran llesiant wedi mynd drwy gamau datblygu helaeth, adolygiadau ac ymgynghoriadau ac ymarferion ymgysylltu. Mae aelodau Cynulliad, rhanddeiliaid, gweithwyr proffesiynol gwasanaethau, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol, ac yn bwysicach na dim, ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr oll wedi cyfrannu at y broses o ddatblygu'r datganiad llesiant a'r ymagwedd tuag at y fframwaith canlyniadau. Felly, ceir tystiolaeth gref bod y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn nodi canlyniadau llesiant pwysig pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Mae'r sylfaen tystiolaeth bresennol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn disgrifio proses. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd ynglŷn â'r effaith y mae gwasanaethau cymdeithasol yn ei chael ar fywydau pobl ac a yw'r gwasanaeth yn gwella canlyniadau pobl. Felly mae bwlch sylweddol yn y dystiolaeth ac mae hŷn yn cefnogi ein nod o ddatblygu fframwaith canlyniadau sy'n mesur effeithiolrwydd ar wasanaethau.

Tystiolaeth:

1. Ymateb yr ymgynghoriad ynghylch y fframwaith canlyniadau cenedlaethol (mae Atodiad A yn rhestru pob sefydliad a ymatebodd). http://wales.gov.uk/docs/dhss/consultation/130516ssswen.pdf

| |
|---|
| 2. 'I matter, We matter' declarations http://imatterwales.files.wordpress.com/2013/03/we-matter-declarations-1-1.docx |

***Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd rydych wedi'u canfod a allai hybu neu hyrwyddo cydraddoldeb.***

**Effaith**

**Llenwch yr adran nesaf i ddangos sut gallai'r polisi / penderfyniad / arfer hwn gael effaith (cadarnhaol neu negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (cyfeiriwch at ddogfen gyfarwyddyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb am fwy o wybodaeth).**

**Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio* â mynd ymlaen i wneud Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Nodwch unrhyw fylchau rydych chi wedi'u nodi yn y dystiolaeth ac esboniwch sut byddwch/a ydych yn bwriadu llenwi'r bylchau hyn.**

**4.1 A ydych chi'n meddwl y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran?**

| Oedran | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Prin ddim | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut gallai gael effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl iau<br><br>*(Plant a phobl ifanc, hyd at 18)* | Cadarnhaol | | | Mae'r datganiad llesiant yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru. Mae'n nodi eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y gyfraith; mae hyn yn cynnwys pobl mewn grwpiau gwarchodedig.<br><br>Datblygwyd y datganiad drwy ddefnyddio cyfraniad uniongyrchol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | pobl iau. Bu'n fodd i sicrhau eu lleisiau a nodi materion yr oedd angen mynd i'r afael â hwy yn benodol ar gyfer y grŵp hwnnw a sicrhau bod yr hyn sy'n bwysig iddynt yn cael ei gofnodi.<br><br>Mae'r diffiniad o lesiant yn y Ddeddf yn cydymffurfio â CCUHP er mwyn ystyried hawliau plant.<br><br>Mae'r Ddeddf hefyd yn newid y dirwedd gofal cymdeithasol drwy ddileu rhwystrau artiffisial oedran a darparu ar gyfer 'pobl' yn lle hynny.<br><br>Paratowyd fersiwn o'r datganiad i blant.<br><br>Mae ein grŵp llywio ac ymgysylltu yn cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa'r Comisiynydd Plant. Y grŵp hwn sydd wedi llywio ac wedi datblygu'r gwaith hwn. |
| Pobl 18-50 | Cadarnhaol | | | Mae'r datganiad llesiant yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru. Mae'n nodi eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y gyfraith.<br><br>Cafodd y datganiad ei ddatblygu gyda phobl 18+ oed a phobl hŷn a ddywedodd wrthym am yr hyn a oedd yn bwysig iddynt. Mae'r diffiniad o lesiant yn y Ddeddf yn cydymffurfio ag Egwyddorion y CU dros Bobl Hŷn er mwyn |
| Pobl hŷn (50+) | Cadarnhaol | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ystyried hawliau pobl hŷn.<br><br>Mae ein grŵp llywio ac ymgysylltu yn cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Y grŵp hwn sydd wedi llywio ac wedi datblygu'r gwaith hwn. |

### 4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?

| Nam | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Prin ddim | Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut gallai gael effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Nam ar y golwg | Cadarnhaol | | | Mae'r datganiad llesiant yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru. Mae'n nodi eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y gyfraith.<br><br>Cafodd y datganiad ei ddatblygu gyda chyfraniad pobl anabl a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl (e.e. ABCD Cymru, Anableddau Dysgu Cymru, RNIB, Sense, Cyngor Cymru i’r Byddar). Mae Anabledd Cymru yn aelod o'n Grŵp Llywio ac Ymgysylltu, a ddatblygodd y gwaith |
| Nam ar y clyw | Cadarnhaol | | | |
| Anabledd corfforol | Cadarnhaol | | | |
| Anabledd dysgu | Cadarnhaol | | | |
| Problem iechyd meddwl | Cadarnhaol | | | |
| Namau eraill | Cadarnhaol | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | hwn.<br><br>Rydym wedi gweithio gydag Anabledd Cymru a sefydliadau eraill i bobl anabl a chyda phobl anabl i baratoi adnodd sy'n cefnogi cydraddoldeb - Galluogi Cymru - Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym wedi hyrwyddo hyn ymhlith ein holl randdeiliaid ac rydym yn defnyddio'r adnodd hwn i'n helpu i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau wrth inni ddatblygu ein canllawiau a'u rheoliadau mewn perthynas â'r Ddeddf gyfan.<br><br>Rydym wedi ymgysylltu â'r tîm cydraddoldebau yn fewnol er mwyn sicrhau bod y datganiadau canlyniadau a ddatblygwyd ganddo ar y cyd â phobl anabl yn unol â'n datganiadau ni. Drwy hyn a thrwy ymgynghori â phobl hŷn a gofalwyr nodwyd canlyniadau penodol i'r grwpiau hyn.<br><br>Mae Barod wedi paratoi fersiwn hawdd ei ddarllen o'r datganiad. |

## 4.3 Oherwydd eu rhyw (dyn neu fenyw)?

| Rhyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Prin ddim | Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Gwryw | | | Prin ddim | Rydym wedi gweithio gyda dynion a menywod (gan gynnwys Chwarae Teg) i greu'r fframwaith hwn ac maent wedi nodi'r hyn a oedd yn bwysig iddynt. |
| Benyw | | | Prin ddim | |

### 4.4 Oherwydd eu bod yn drawsryweddol?

| Trawsryweddol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Prin ddim | Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut gallai gael effaith? |
|---|---|---|---|---|
| | | | Prin ddim | Mae'r datganiad llesiant yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru. Mae'n nodi eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y gyfraith, sy'n cynnwys pobl mewn grwpiau gwarchodedig.<br><br>Ni thargedwyd y gymuned drawsryweddol yn benodol gennym ond byddai'n cael ei chwmpasu drwy ein gwaith ymgysylltu eang.<br><br>Byddwn yn sicrhau ei bod ar ein rhestr ymgynghori. |

### 4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Prin ddim | Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Priodas | Cadarnhaol | | Prin ddim | Mae'r datganiad llesiant yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru. Mae'n nodi eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y gyfraith, sy'n cynnwys pobl mewn grwpiau gwarchodedig.<br><br>Gall fod gan bobl briod neu bobl mewn partneriaeth sifil gyfrifoldebau gofalu a gaiff eu dal yn hawliau a llesiant gofalwyr. |
| Partneriaeth Sifil | Cadarnhaol | | Prin ddim | |

## 4.6 Oherwydd beichiogrwydd neu famolaeth?

| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Prin ddim | Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut gallai gael effaith? |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | Cadarnhaol | | Prin ddim | Mae'r datganiad llesiant yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru. Mae'n nodi eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y gyfraith, sy'n cynnwys pobl mewn grwpiau gwarchodedig. |
| Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni) | Cadarnhaol | | Prin ddim | |

### 4.7 Oherwydd hil?

| Hil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Prin ddim | Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut gallai gael effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl o leiafrifoedd ethnig e.e. Asiaidd, Du, | Cadarnhaol | | | Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn nodi bod yn rhaid i bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn.<br><br>Mae'r datganiad llesiant yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru. Mae'n nodi eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y gyfraith, sy'n cynnwys pobl mewn grwpiau gwarchodedig.<br><br>Mae ein gwaith |
| Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig) | Cadarnhaol | | | |
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | Cadarnhaol | | | |
| Sipsiwn a Theithwyr | Cadarnhaol | | | |
| Mudwyr | Cadarnhaol | | | |
| Eraill | Cadarnhaol | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ymgysylltu eang a'n hymgynghoriadau wedi cofnodi llawer o safbwyntiau wrth inni ofyn i bobl nodi'r hyn a oedd yn bwysig iddynt, gan gynnwys ymatebion gan Diverse Cymru, a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau.<br><br>Mae'r datganiad hefyd yn diffinio y dylai pobl gael cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os oes angen hynny, sydd yn unol â Mwy na Geiriau. |

## 4.8 Oherwydd crefydd a chred neu ddiffyg cred?

| Crefydd a chred neu ddiffyg cred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Prin ddim | Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Gwahanol grwpiau crefyddol gan gynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindwiaid Eraill (nodwch) | Cadarnhaol | | | Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn nodi bod yn rhaid i bersonau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf ystyried nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn.<br><br>Mae'r datganiad llesiant yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru. Mae'n nodi eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y |
| Cred e.e. Dyneiddiaeth | Cadarnhaol | | | |
| Diffyg cred | Cadarnhaol | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gyfraith, sy'n cynnwys pobl mewn grwpiau gwarchodedig.<br><br>Mae'r datganiadau canlyniadau yn cynnwys ystyried amgylchiadau unigol pobl, a datblygwyd hyn drwy ymgynghori â sefydliadau megis y Fforwm Cymunedau Ffydd a Cytûn. |

### 4.9 Oherwydd cyfeiriadedd rhywiol?

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Prin ddim | Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai gael effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Dynion hoyw | Cadarnhaol | | | Mae'r datganiad llesiant yn diffinio canlyniadau llesiant i bawb sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru. Mae'n nodi eu hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y gyfraith, sy'n cynnwys pobl mewn grwpiau gwarchodedig.<br><br>Mae'r datganiadau canlyniadau yn cynnwys ystyried amgylchiadau unigol pobl, a datblygwyd hyn drwy ymgynghori helaeth â sefydliadau megis Canolfan Ragoriaeth LGBT a Stonewall Cymru. |
| Lesbiaid | Cadarnhaol | | | |
| Pobl ddeurywiol | Cadarnhaol | | | |

**4.10 A ydych chi'n meddwl y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl? *Cyfeiriwch at bwynt 1.4 yn Atodiad A yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Cyfarwyddyd i gael gwybodaeth bellach am Hawliau Dynol.***

| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Prin ddim | Rheswm dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) / Sut gallai gael effaith? |
|---|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol gan gynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig | Cadarnhaol | | | Cafodd y datganiad llesiant ei ddatblygu ar sail hawliau, gan adeiladu ar yr hawliau a amlinellwyd yn CCUHP ac Egwyddorion y CU dros Bobl Hŷn.<br><br>Mae gan bawb hawl i lesiant ac mae'r datganiad yn nodi hawliau a chyfrifoldebau pobl o dan y gyfraith, ac mae hyn yn cynnwys pobl mewn grwpiau gwarchodedig.<br><br>Mae ein gwaith ymgysylltu eang a'n hymgynghoriadau wedi cofnodi llawer o safbwyntiau wrth inni ofyn i bobl nodi'r hyn a oedd yn bwysig iddynt, gan gynnwys ymatebion gan |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Diverse Cymru, a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau. |

***Os ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol (ac eithrio rhai mân) ar unrhyw grŵp â nodweddion gwarchodedig, llenwch Ran 2.***

***Dylech fynd yn syth i ran 2 a llofnodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb dim ond os nad oes unrhyw effeithiau neu fân effeithiau cadarnhaol neu negyddol.***

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2

**1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth rydych chi wedi'i chasglu a'i hystyried yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:**

**1.1 Sut gallai neu sut mae'r polisi yn helpu i hybu / hyrwyddo cyfle cyfartal?**

Er enghraifft, mesurau cadarnhaol i fynd i'r afael ag anfantais a chyrraedd gwahanol gymunedau neu grwpiau gwarchodedig.

Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod hawliau a chyfrifoldebau pobl yn gyfraith gwlad ac mae hyn yn cynnwys dyletswydd bod yn rhaid i wasanaethau ystyried amgylchiadau unigol pobl ac mae'n rhaid iddynt eu helpu i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy. Bydd hyn yn sicrhau mwy o lais a rheolaeth i bawb, a fydd yn gallu helpu i gyfrannu at y broses o ddatblygu gofal a chymorth er mwyn sicrhau eu canlyniadau llesiant personol.

Datganiad am ganlyniadau llesiant yw'r datganiad llesiant, ynghyd â mesurau sy'n gymwys i bawb, p'un a ydynt mewn grŵp gwarchodedig ai peidio. Fodd bynnag, bydd rhai canlyniadau a mesurau'n benodol i ddefnyddwyr gwasanaethau penodol.

Rydym wedi gweithio gyda grwpiau gwarchodedig i ddatblygu'r datganiadau hyn am ddisgwyliadau. Mae ymgysylltu â sefydliadau megis Stonewall Cymru, Cytûn, Anableddau Dysgu Cymru, Diverse Cymru, a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau wedi sicrhau ein bod wedi cofnodi canlyniadau llesiant penodol sy'n briodol i bawb.

Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn helpu pobl i sicrhau'r llesiant a nodir yn y datganiad. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a bydd yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb y gofal a roddir. Bydd yn helpu i nodi a yw gwasanaethau gofal effeithiol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael yn y man cywir, yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir ac yna bod gwasanaethau yn gweithio gyda phobl i bennu eu canlyniadau llesiant a'u helpu i sicrhau hynny.

**1.2 Sut gallai neu sut mae'r polisi/penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?**

Bydd y newid i ganlyniadau fel y'i nodwyd yn y datganiad llesiant yn sicrhau bod pobl wrth wraidd y broses reoleiddio, gan y bydd darparwyr, comisiynwyr awdurdodau lleol a gweithwyr proffesiynol yn gyfrifol am ddangos sut maent wedi darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn helpu pobl i sicrhau eu canlyniadau llesiant personol a sut mae'r gwaith hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r rhai a wasanaethir ganddynt. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod llais y bobl yn cael ei glywed, bod eu hamgylchiadau unigol yn cael eu hystyried a bod eu canlyniadau llesiant personol yn cael eu trafod.

**1.3 Sut gallai neu sut mae'r polisi yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?**

Mae gan bawb yr hawl i lesiant ac mae ar bawb gyfrifoldeb am lesiant. Mae'n rhaid inni helpu pobl i sicrhau llesiant drwy gydnabod a gwerthfawrogi cryfderau pobl, teuluoedd pobl, ffrindiau a chymunedau.

Cafodd y fframwaith canlyniadau ei gyd-gynhyrchu gan y bobl eu hunain. Drwy ymgysylltu ac ymgynghori'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau a grwpiau cydraddoldeb gwahanol, cawsom wybod yn uniongyrchol yr hyn a oedd yn bwysig iddynt, a chael dealltwriaeth o'u rhwystrau a'u hawliau personol eu hunain yr oedd angen eu goresgyn.

Mae'r datganiad llesiant yn gosod y sylfeini er mwyn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ganlyniadau llesiant pobl. Mae hyn yn cynnwys p'un a oes rhywun yn teimlo ei fod yn perthyn, a yw'n ymgysylltu ac yn cymryd rhan ac yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi mewn cymdeithas, sy'n bwysig iawn i bobl a all deimlo'n agored iawn i niwed am eu bod yn dod o dan y grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

## 2. Cryfhau'r polisi

| **2.1 Os yw'r polisi yn debygol o gael effaith negyddol (‘effaith andwyol’) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig neu gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau dros hyn?**<br><br>**Beth yw'r newidiadau/camau ymarferol y gellid eu cymryd i leihau neu ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodir yn Rhan 1?** |
|---|
| Ddim yn gymwys |

| **2.2 Os na fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd i ddileu neu leddfu effeithiau negyddol/andwyol, rhowch gyfiawnhad dros hyn.**<br><br>**(Cofiwch fod yn rhaid newid neu ddiwygio'r polisi os ydych chi wedi canfod gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi.)** |
|---|
| Ddim yn gymwys |

## 3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

| |
|---|
| **Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?**<br><br>Rhestrwch unrhyw waith dilynol fydd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgynghoriadau, monitro penodol etc). |
| Cyhoeddwyd y datganiad llesiant fel rhan o'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth ym mis Mehefin 2014.<br><br>Caiff y dangosyddion canlyniadau a ddefnyddiwyd yn y fframwaith canlyniadau cenedlaethol eu casglu a'u cyhoeddi bob blwyddyn. Bydd hyn yn rhoi tystiolaeth bwysig i fesur yr effaith y mae darparwyr gwasanaethau cymdeithasol yn ei chael ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Bydd hefyd yn creu cyfle i gymharu llesiant defnyddwyr gwasanaethau gwahanol, megis pobl iau a hŷn sydd â salwch cyfyngus hirdymor neu bobl anabl. Bydd hyn yn hollbwysig o ran monitro a yw pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael gwasanaethau gofal a chymorth sy'n sicrhau eu canlyniadau llesiant. |
| Caiff canlyniadau'r holl asesiadau o effaith lle mae'r effaith yn sylweddol eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. |

## 4. Datganiad

**Mae'r polisi yn cael effaith sylweddol ar faterion cydraddoldeb**

| |
|---|
| **Y swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** |
| Huw Jones |
| Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 18/07/14 |
| Llofnod: *Huw Jones* |
| **Pennaeth yr Is-adran (Cymeradwyo)** |
| **Margaret Provis** |
| Dirprwy Gyfarwyddwr, Arwain a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 29/07/14 |
| Llofnod: *Margaret Provis* |
| Dyddiad Adolygu (i'w adolygu bob 1-3 blynedd): 30/07/15 |